PATRWM BYW DISGYBLEDIG A CHYFRIFOL MEWN BYD ANWAR

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi mor bwysig ydi hi i weision Duw ymbwyllo ym mhob agwedd ar fywyd. Dyma'r unig ffordd i orchfygu'r byd fel gwnaeth Iesu, ac ennill cymeradwyaeth Duw a'i fendith

BYD GWALLGO YDI BYD SATAN (5 mun.)

Mae trefn Satan fel llong yn cael ei thaflu gan fôr stormus, wedi'i chwalu, yn ddireolaeth, yn mynd i ddistryw

Mae trais erchyll, brawychiaeth ac anfoesoldeb rhywiol yn bla ar y ddynoliaeth (*w*99 5/15 32; *w*99 9/1 10; *w*97 7/15 11-12; *g*97 1/8 31)

Mae cyffuriau a'r ddiod feddwol yn niweidio llawer (*g*99 11/8 3-14)

Satan sy'n hyrwyddo'r hinsawdd lwgr, anfoesol hon er mwyn sicrhau difetha'r ddynoliaeth (Dat 12:12)

Mi fydd byw yn "ddisgybledig" yn help inni wrthwynebu dylanwad byd anfoesol Satan (Darllen Titus 2:12)

Sut mae byw yn ddisgybledig?

YR HYN MAE BYW YN DDISGYBLEDIG YN EI OLYGU (12 mun.)

Mae byw yn ddisgybledig yn golygu mwy na defnyddio'n pwyll, ein gallu meddyliol, neu fod yn feddyliol iach (*w*97 8/15 17, 22; *w*93 6/1 15-16)

Mae'n cynnwys dod yn gyfarwydd ag ewyllys datguddiedig Duw, gan gydnabod cyfiawnder egwyddorion a barn Duw, ac adlewyrchu meddylfryd Duw yn ein bywyd, a bod yn gytbwys

Mae Jehofah yn datgelu'i ewyllys yn ei Air ysbrydoledig (1Cor 2:10-13)

Medrwn ddod i ddysgu meddwl a gweithredu yn unol ag ewyllys datguddiedig Jehofah wrth astudio Gair Duw, myfyrio ynddo a'i roi ar waith (Jos 1:8)

Os bydd cwestiynau'n codi, yr Ysgrythurau sy'n dangos inni sut i ymateb (Diar 3:5, 6)

Gallwn ofyn i ni'n hunain: 'Be' 'di ewyllys Duw ynglŷn â hyn? Pa weithredu fydd yn codi calon Jehofah? Be' fyddai Crist wedi'i wneud yn yr un sefyllfa? Pa egwyddorion Beiblaidd sy'n berthnasol yma?'

'Dyw dim ond gwybod be' ydi ewyllys datguddiedig Duw ddim yn ddigon

Mae ymddisgyblu yn golygu rhoi hynny ar waith yn ein byw bob dydd, a newid ein ffordd o feddwl ac ail gyfeirio'n bywyd unwaith mae ewyllys Duw yn dod yn amlwg

Beth am inni drafod rhai meysydd arbennig lle mae angen bod yn ddisgybledig a'r hyn mae gofyn i ni ei wneud

RHAID I BAWB OHONOM YMBWYLLO (23 mun.)

(Darllen 1 Timotheus 3:2, 5)

Mae disgwyl i bob henuriad ymbwyllo gan eu bod yn gyfrifol am gyfarwyddo'r teulu ac aelodau'r gynulleidfa

Dylai henuriaid wybod beth ydi ewyllys ddatguddiedig Jehofah a medru deall sut i'w rhoi ar waith (Titus 1:7-9; Heb 5:14)

Fe ddylai eu cyfarwyddyd nhw ar yr hyn sy'n iawn a'r hyn sy'n ddrwg fod wedi'i seilio ar yr Ysgrythurau (2Tim 4:2)

Mae angen bod yn gytbwys a rhesymol (Iago 1:19, 20)

Mae angen hefyd bod yn barod i dderbyn cyngor sy' wedi'i seilio ar Air Duw

(Darllen Titus 2:2-8)

Dylai pob penteulu fod yn bwyllog i sicrhau rhaglen fuddiol i hyfforddi'i deulu'n theocrataidd

Byddai hyn yn cynnwys astudiaeth deuluol gyson, gyda chyfarwyddyd ynglŷn â sicrhau perthynas heddychlon, moesau da, gwisg a thrwsiad addas; mynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd a chael rhan ynddyn' nhw; hyfforddiant cynyddol yng ngweinidogaeth y maes (1Tim 5:8)

Mae'r gynulleidfa'n gwerthfawrogi gwragedd Cristnogol

Y neges i'r chwiorydd hŷn ydi "hyfforddi'r gwragedd ifanc yn y pethau gorau, a'u cymell i garu eu gwŷr a charu eu plant, i fod yn ddisgybledig" (*w*94 6/15 20-1)

Mae chwiorydd yn ddisgybledig a phwyllog wrth osod esiampl dda ac wrth ddangos cariad i aelodau'r teulu

Mae gwraig sy'n meddwl ac yn gweithredu yn ôl ewyllys Jehofah ac sy'n weithgar er lles ei gŵr a'i phlant yn haeddu clod (Diar 31:10-31)

Mae gwyleidd-dra yn addurn gweddus (1Tim 2:9, 10; *g*00 8/8 19; *g*98 8/8 21)

Mi all dynion ifanc ymbwyllo drwy eu gweithredoedd daionus a'u sgwrsio glân (1Tim 6:18, 20; *w*94 6/15 21)

Mi fydd eu cynnydd yn dod yn amlwg wrth iddyn' nhw roi eu bryd ar gyfrifoldebau pellach (1Tim 3:1; 4:15)

Boed yn hen neu'n ifanc, rhaid i *bawb* ymbwyllo

Byddwn yn barod i addasu'n byw bob dydd yn ôl cyfarwyddyd Duw ynghlwm yn ei gyfundrefn (Salm 119:60)

Boed inni ddangos yn ein ffordd o fyw ein bod ni'n sylweddoli argyfwng yr oes (1Pedr 4:7)

Peth ffôl fyddai inni ddilyn pleserau hunanol personol, gan feddwl y medrwn ymlacio am gyfnod cyn newid cwrs ein bywyd

Ydych chi'n "ddoeth eich ymddygiad tuag at y rhai di-gred" wrth i chi osgoi cyfeillachu â'r byd fwy nag sydd raid? (Col 4:5; 1Cor 15:33)

Beth ydi'ch dewis adloniant chi? Ydi e'n dangos pwyll?

Mae disgwyl inni ddangos "sêl dros weithredoedd da"—ac mae hyn yn cynnwys gweithio i wneud disgyblion (Tit 2:14; Math 28:19, 20)

BYW YN BWYLLOG A GORCHFYGU'R BYD (5 mun.)

Mae Satan a'i gyfundrefn am ein gwasgu ni i ffitio'i batrwm e, a'n cael ni i gydymffurfio â'r byd (Rhuf 12:2; *w*99 4/1 21)

Mi fedrwn ni wrthwynebu pwysau Satan yn llwyddiannus

I wneud hynny, rhaid astudio Gair Duw yn gyson, closio at Jehofah, dal ati i weddïo, mynd i'r cyfarfodydd a chymryd rhan ynddyn' nhw, cyfrannu'n llawn i'r gwaith pregethu, arfer ffydd, a rhoi'n gobaith yn Jehofah

Wrth ymbwyllo, fydd byd Satan ddim yn ein llyncu ni, ond byddwn yn cael ein tywys gan ysbryd a Gair Jehofah

Fe gawn ni felly ein harbed pan gaiff trefn Satan ei difa. Fe gawn ni hefyd orfoleddu yn y rhodd mae Duw wedi'i rhoi inni—byw am byth, oherwydd inni ddod i 'nabod ewyllys ddatguddiedig Duw a'i rhoi ar waith

Medrwn ddweud, fel Iesu: "Yr wyf fi wedi gorchfygu"r byd" (Ioan 16:33)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd sydd wedi'i amlinellu, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. Does dim rhaid darllen pob ysgrythur a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)